

Sul y Mamau

Darlleniad 1: Diarhebion 31: 10-21

Darlleniad 2: Luc 2: 41-52

Deuwn atat ti, ein Tad graslon a thrugarog, i ddiolch i ti am bob dylanwad dyrchafol a fu arnom yn ein bywyd. O bob dylanwad, diolchwn am ddylanwad mamau da. Mae'r rhain wedi perarogli oesoedd byd. Diolch i ti am Efa, y fam gynta, ond canmil mwy o ddiolch am Mair, mam Iesu.

Diolch i ti am gariad pob mam dda. Hwyl fu'n suoganu uwch ein crud; yn gwyllo'n cerddediad pan oeddem yn blant; yn aberthu, yn ceryddu ac yn disgyblu. Dyma'r cariad sy'n gwyllo, y cariad sy'n galw, yn gwarchod ein cerddediad ym more oes, ac yn gwarchod ein bywyd hyd ei allu.

Diolch iddynt am gydio yn ein llaw ar ddechrau'r daith a'n harwain i'th gysegr di. Cydnabyddwn ein dyled iddynt am ein dysgu i barchu dy bethau di. Meddyliwn yn aml, O! Dduw ein Tad, beth fyddai ein hanes oni bai iddynt ein cyfarwyddo a'n dysgu i ddewis y gorau mewn bywyd.

Gwerthfawrogwn eu haberth, eu cariad a'u llafur yn paratoi cartref cysurus ar ein cyfer. Gwyddom fod eu cariad yn fawr tuag atom oherwydd eu gofal amdanom. Sylweddolwn fod lles a ffyniant y teulu yn cael blaenoriaeth ganddynt bob amser. Gofidiwn yn aml inni fethu ymateb fel y dylem i'r cariad a ddangoswyd ganddynt.

Derbyn ein diolch, O! Dduw, am bob cyfarwyddyd a chynghor a roddwyd inni gan ein mamau; oni bai amdanynt, ni fyddai unrhyw fath o drefn o gwbl arnom. Cydnabyddwn na fu inni wrando bob amser ar gynghor ein mamau, oherwydd ein bod yn meddwl ein bod yn gwybod yn well na hwyl. Gwelsom fwy nag unwaith mai ein camgymeriad mawr oedd peidio â dilyn eu cyfarwyddyd.

Maddau inni am beidio eu parchu fel y dylem eu parchu;

maddau inni os nad ydym yn eu caru fel y dylem eu caru. Wrth inni ddod i weld a sylweddoli mor fawr yw ein dyled iddynt, arwain ni, os gweli'n dda, i'w caru ac i fod yn ofalus ohonynt. Dyro dy gymorth inni weld mai:

‘Ein braint yw byw i'w caru hwy
Sy'n byw i'n caru ni.’

Er inni, O! Dduw ein Tad, ganmol y mamau a'u cariad, eto sylweddolwn fod dy gariad di'n fwy hyd yn oed na chariad mam.

‘Cariad Duw fydd eto'n arwain,
Cariad mwy na chariad mam.’

Diolchwn i ti felly, O! Arglwydd, am y Sul arbennig hwn a neilltuwyd i fod yn Sul y Mamau. Dyro inni wrth weddio gofio un o'r Deg Gorchymyn:

‘Anrhydedda dy dad a'th fam, er mwyn amlhau dy
ddyddiau yn y wlad y mae'r Arglwydd yn ei rhoi i ti.’

Cofiwn heddiw am y rhai na wŷr ddim am ein braint a'n dyled ni; rhai sydd heb wybod am ofal a chariad mam. Cofiwn am y mamau hynny mewn rhannau tlawd o'r byd sydd heb fwyd i'w roddi i'w plant, mamau sy'n gorfod gwyllo'u plant yn dioddef ac yn marw. Cofiwn amdanynt ar Sul y Mamau, ac am bob cymorth a roddir iddynt yn eu pryder am eu hanwyliaid.

Gweddiwn ar i holl famau Cymru ddod i adnabod y Gwarddwr, a thrwy hynny arwain eu plant i lwybrau'r efengyl. Gwranddo ar ein gweddi ar ran holl famau ein gwlad, yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Eifion Jones